



PAPUR BRIFFIO: Argyfwng Costau Byw: Y camau sydd eu hangen i ddiogelu pobl hŷn

DIWEDDARWYD: MEDI 2022

Wrth i'r argyfwng costau byw barhau, rydym yn clywed yn amlach am realiti'r sefyllfa bresennol i bobl hŷn sy'n byw ar incwm isel, sef y bobl hynny sydd ymysg y rhai y mae costau cynyddol a chwyddiant cynyddol yn effeithio arnynt fwyaf.

Rydym wedi clywed am unigolion sy'n methu fforddio'r ynni i goginio pryd poeth, a'r rheini sy'n rhy ofnus i droi'r goleuadau ymlaen rhag ofn y byddan nhw'n cael bil nad ydyn nhw'n gallu ei dalu.

I eraill, nid yw gweithgareddau sy'n hanfodol ar gyfer lles a allai gostio ychydig o bunnoedd – fel mynychu grŵp cymunedol neu gwrdd â ffrindiau – yn fforddiadwy mwyach.

Dylai pobl hŷn allu ymddeol gydag urddas, gyda digon o incwm o'u pensiwn gwladol a/neu ffynonellau eraill i fyw'n gyfforddus a'r gallu i barhau i gymryd rhan mewn cymdeithas.

Fodd bynnag, mae amgylchiadau ariannol pobl hŷn ledled Cymru'n gwaethygu, gyda miloedd o bobl yn cael eu gwthio i dlodi neu'n ddyfnach i dlodi.

Mae hyn yn golygu nad yw llawer o bobl hŷn yn gallu fforddio pethau hanfodol – fel bwyd a gwres – rhywbeth sy'n rhoi iechyd pobl mewn perygl sylweddol o ychwanegu rhagor o bwysau at y GIG sydd eisoes dan bwysau. Yn anffodus, mewn rhai achosion, bydd hyn yn arwain at bobl yn marw.

Mae'r Comisiynydd wedi nodi'r camau y mae angen eu cymryd yng Nghymru, yn y DU ac ar lefel leol i wella'r cymorth ariannol sydd ar gael i bobl hŷn.

Bydd cymryd y camau hyn yn hanfodol i sicrhau bod pobl hŷn yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt ar unwaith wrth inni wynebu'r argyfwng sy'n ymwneud â chostau byw a bod pobl hŷn, yn y tymor hwy, yn cael incwm teg nad yw'n eu gadael yn gaeth i dlodi parhaus.

Effaith costau ynni

Cynyddodd costau ynni cartrefi 54% ym mis Ebrill 2022, gan ychwanegu tua £700 y flwyddyn at y bil cyfartalog, a gallai godi cymaint â 40% eto ym mis Hydref.


Mae aelwydydd sy'n defnyddio tanwydd oddi ar y grid, nad yw'n dod o dan gap prisiau OFGEM, wedi gweld eu costau'n codi hyd yn oed yn fwy dramatig, gyda chost olew gwresogi yn cynyddu 122% - o 66.7c i 148.25c y litr.

Tlodi wrth fynd yn hŷn

Er bod rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud yn ystod y ddau ddegawd diwethaf, mae tlodi ymysg pobl hŷn bellach yn cynyddu ac mae oddeutu 1 o bob 5 o bobl hŷn (18%) yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol.

Mae edrych yn fanylach ar sbectrwm incwm isel o dan ffigur 60% Canolrif y DU yn dangos bod incwm pobl hŷn sy'n dibynnu'n llwyr ar Bensiwn y Wladwriaeth yn disgyn yn is o lawer na'r llinell tlodi incwm gymharol hon.

Incwm wythnosol fel canran o incwm canolrifol aelwydydd



Pensiwn y Wladwriaeth yw'r brif ffynhonnell incwm i lawer o bobl hŷn yng Nghymru, ac mae'r penderfyniad i ddileu'r Clo Trebl ar gyfer Pensiynau 2022-23 yn golygu bod llawer o bobl hŷn wedi gweld gostyngiad mawr yn eu hincwm (codwyd Pensiwn y Wladwriaeth 3.1% er gwaethaf yr amcanestyniadau y bydd chwyddiant yn cyrraedd 10% yn fuan) ar adeg pan fydd costau bwyd ac ynni'n codi'n gyflym iawn.

Mae'n bwysig nodi hefyd na fydd swm llawn Pensiwn y Wladwriaeth yn cael ei ddyfarnu i bobl hŷn sydd â chofnod cyfraniad Yswiriant Gwladol is, rhywbeth sy'n effeithio'n benodol ar fenywod hŷn sy'n fwy tebygol o fod wedi cymryd amser o'r gwaith oherwydd cyfrifoldebau gofalu.

Yn yr achosion hyn, mae person hŷn yn gymwys i hawlio Credyd Pensiwn i 'ychwanegu' at ei bensiwn i £9495.20, ond mae llawer o bobl nad ydynt yn hawlio'r hyn y mae ganddynt hawl iddo. Amcangyfrifir bod dros 70,000 o aelwydydd yng Nghymru yn gymwys ond nad ydynt yn hawlio'r arian y mae ganddynt hawl iddo.¹

Mae hyn yn golygu bod miloedd o bobl hŷn yng Nghymru yn colli allan ar gymorth ariannol hanfodol – mae Credyd Pensiwn yn werth £58 yr wythnos ar gyfartaledd – yn ogystal â hawliau ychwanegol 'heb eu cloi' drwy hawlio, fel gostyngiadau yn y dreth gyngor, gofal deintyddol am ddim a chymorth gyda chostau tai, sy'n darparu rhagor o gymorth ariannol i bobl hŷn.

Hefyd, mae menywod hŷn sengl, pobl hŷn Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a phobl hŷn sy'n byw mewn llety rhent (preifat a chymdeithasol) i gyd mewn perygl sylweddol o wynebu tlodi ar ôl ymddeol.

Amser gweithredu

Mae'n hanfodol bod gweithredu ar y cyd ar bob lefel o lywodraeth, yn ogystal ag yn ein cymunedau, er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yng Nghymru yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i oroesi'r gaeaf hwn.

Fodd bynnag, fel y nodwyd mewn datganiad diweddar gan y Comisiynydd, nid yw'r mesurau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU – a fydd yn rhoi cap o £2,500 ar gostau ynni ar gyfer aelwyd nodweddiadol, sy'n cynrychioli dyblu'r gost o gymharu â'r adeg hon y llynedd – yn mynd yn ddigon pell i amddiffyn llawer o bobl hŷn rhag effaith ddinistriol yr argyfwng costau byw.

Felly, mae angen camau pellach gan y llywodraeth i sicrhau bod pobl hŷn yn cael y cymorth ariannol sydd ei angen arnynt.

Yn y tymor byr, mae angen inni weld camau gweithredu pellach wedi'u targedu i ddarparu'r cymorth ariannol sydd ei angen ar bobl hŷn i'w gael drwy'r gaeaf hwn, a rhaid dwysau ymdrechion i wneud y mwyaf o incwm drwy sicrhau bod pobl hŷn yn cael yr holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo, ochr yn ochr ag adolygiad o fudd-daliadau, taliadau a lwfansau eraill i wella'r modd y mae rhain yn cael eu targedu a'u gweinyddu.



Byddai dynes sengl 70 oed ar ddim ond y lefel sylfaenol llawn o Bensiwn y Wladwriaeth yn byw ar incwm o **£141.85 yr wythnos.**

Pe bai hi'n hawlio ei hawliad i Gredyd Pensiwn, byddai ei hincwm blyneddol yn cynyddu dros £2,000.

¹ Tŷ'r Cyffredin – Pwyllgor Materion Cymreig – Y System Fudd-daliadau yng Nghymru (Mawrth 2022). Ar gael yn Y System Fudd-daliadau yng Nghymru (parliament.uk) [cyrchwyd ar 25 Gorffennaf 2022]

Yn y tymor hwy, rhaid cael adolygiad cynhwysfawr o'r lefelau y caiff Pensiwn y Wladwriaeth ei dalu, er mwyn sefydlu lefel incwm deg ar gyfer bywyd diweddarach.

Ochr yn ochr â hyn, mae angen darparu cyllid hefyd i grwpiau cymunedol a'r trydydd sector er mwyn adeiladu ar y camau cadarnhaol a'r perthnasoedd sydd wedi datblygu yn ystod y pandemig. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi gweld rhai o'r gorau o'n cymunedau ac mae ymdrechion gwirfoddolwyr, grwpiau cymunedol, elusennau, busnesau lleol a llywodraeth leol wedi bod yn hanfodol ac wedi darparu llawer iawn o gymorth a chefnogaeth i lawer o bobl hŷn.

Rydym yn dal i wynebu cyfnod anodd ac mae angen cymryd camau tebyg unwaith eto i estyn allan at ein pobl hŷn fwyaf agored i niwed a'r rheini a allai fod yn ei chael hi'n anodd sicrhau bod pobl hŷn yn cael yr hyn sydd ei angen arnynt.

Mae'r camau penodol y mae'r Comisiynydd yn galw amdanynt wedi'u nodi isod:

Er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw sy'n wynebu pobl hŷn, dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Cyhoeddi cynllun gweithredu ar gyfer gaeaf 2022-23 i fynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach tloedi yn ogystal ag ehangu rhaglenni i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi pobl hŷn. Sicrhau bod cyngor a chymorth priodol ar gael er mwyn i bobl hŷn allu cael gafael ar y rhaglenni hyn yn ogystal â mathau eraill o gymorth cyn y cynnydd pellach disgwylidig mewn costau.
- Darparu cyllid grant i grwpiau cymunedol ac asiantaethau trydydd sector i sefydlu gweithgareddau cefnogi lleol ar gyfer pobl hŷn yn eu cartrefi eu hunain ac mewn lleoliadau cymunedol, gan ddarparu croeso cynnes, maeth a chyfle i ryngweithio'n gymdeithasol.
- Cyhoeddi cynllun i gyflymu a dwysáu ymgyrchoedd manteisio i'r eithaf ar incwm – yn enwedig Credyd Pensiwn, Lwfans Gweini a Lwfans Gofalwyr – gweithio gydag awdurdodau lleol a'r Adran Gwaith a Phensiynau i ddefnyddio'r data presennol i ganfod hawlwyr posibl.
- Adolygu a gwella cynlluniau cymhorthdal incwm megis cynlluniau gostyngiadau treth y Cyngor a'r Gronfa Cymorth Dewisol, gan gael gwared ag unrhyw rwystrau tybiedig i hawlio a chynyddu nifer y bobl hŷn sy'n hawlio.
- Cynhyrchu adroddiadau rheolaidd yn nodi faint o bobl hŷn sy'n cael cymorth i gael gafael ar gymorth

Er mwyn cefnogi gweithredu ar lawr gwlad, dylai Awdurdodau Lleol wneud y canlynol:

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau i alluogi defnyddio data sy'n cael ei ddal gan adrannau tai a budd-daliadau i ganfod hawlwyd Credyd Pensiwn a allai fod yn gymwys a chysylltu â nhw i'w helpu i hawlio.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, grwpiau cymunedol ac asiantaethau trydydd sector i gydlynu gweithgareddau cymorth lleol gan ddarparu cyfleoedd i fynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol a darparu pryddau fforddiadwy i bobl hŷn.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, archfarchnadoedd lleol, siopau cymunedol, banciau bwyd, mentrau tlodi bwyd lleol ar lawr gwlad a grwpiau a mentrau cymunedol eraill i ganfod ffyrdd o estyn allan a darparu cymorth i bobl hŷn.

Yn ogystal â'r camau gweithredu uchod, yn cynnwys cymorth wedi'i dargedu ymhellach, mae angen newid strwythurol tymor hwy hefyd er mwyn sicrhau bod Pensiwn y Wladwriaeth a hawliau ariannol eraill yn cyd-fynd â chostau cynyddol a chwyddiant ac yn darparu lefel ddigonol o incwm ar gyfer pobl hŷn y mae'n rhaid ei ddarparu ar lefel y DU.

Mae hyn yn golygu y dylai Llywodraeth y DU wneud y canlynol:

- Sicrhau bod yr ymrwymiad i adfer mecanwaith y Clo Trebl ar Bensiwn y Wladwriaeth yn cael ei gyflawni ar gyfer 2023-24 a thu hwnt
- Dylunio a darparu dull cofrestru awtomatig ar gyfer y Credyd Pensiwn
- Adolygu ac uwchraddio'r Taliad Tanwydd Gaeaf yn barhaol cyn taliad y flwyddyn nesaf i gydnabod y gostyngiad yn ei werth ers iddo gael ei osod ddiwethaf.
- Cynnal adolygiad cynhwysfawr o ddigonolrwydd y lefel y caiff Pensiwn y Wladwriaeth ei dalu

Y camau sy'n cael eu cymryd gan y Comisiynydd

Bydd y Comisiynydd yn parhau i wneud y canlynol:

- Hyrwyddo a darparu gwybodaeth i bobl hŷn, eu teuluoedd a'u ffrindiau am ffynonellau cymorth ariannol
- Ymgysylltu â phobl hŷn i glywed yn uniongyrchol ganddynt am eu profiadau a chasglu tystiolaeth hanfodol am y mathau o fentrau sydd fwyaf effeithiol o ran darparu cymorth
- Galw am weithredu gan lywodraethau ar bob lefel i sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu cefnogi drwy'r argyfwng costau byw, a chraffu ar y gweithredu hwnnw
- Gweithio gyda sefydliadau arbenigol yng Nghymru a ledled y DU i rannu tystiolaeth ac arferion da, i hyrwyddo atebion ac i bwysu am welliannau mewn cymorth

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais annibynnol ac yn eiriolydd ar ran pobl hŷn ledled Cymru.

Mae'r Comisiynydd yn cymryd camau i amddiffyn hawliau pobl hŷn, i roi diwedd ar wahaniaethu ar sail oedran a gwahaniaethu ar sail oed, i atal cam-drin pobl hŷn a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd yn gweithio i sicrhau Cymru lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, lle mae hawliau'n cael eu cynnal a lle nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

E-bost: ask@olderpeople.wales
Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

Twitter: [@comisiwnphcymru](https://twitter.com/comisiwnphcymru)